



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Synthesis tystiolaeth a phrosiect ymchwil ar Gynhwysiant Ariannol i lywio cynllunio polisi

Crynodeb

Dyma gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith ar brosiect ar ran Llywodraeth Cymru.

Bydd y lleoliad a gynigir yn rhoi cyfle i wella gwybodaeth Llywodraeth Cymru am gynhwysiant ariannol drwy weithio ar dystiolaeth i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau polisi, yn benodol yn ymwneud â mynd i'r afael â rhwystrau i gynhwysiant ariannol a chefnogi unigolion i gael mynediad at wasanaethau ariannol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i ymchwilio i amrywiaeth o ganlyniadau ymchwil a'u datblygu, a chefnogi Llywodraeth Cymru yn ei phroses ymchwil. Bydd yr ymgeisydd yn cael cyfle i ddefnyddio sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar ei sgiliau cyffredinol a chyfoethogi ei wybodaeth am ymchwil y tu hwnt i faes academiaidd.

Y Sefydliad

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a'r GIG yng Nghymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac amgylchedd Cymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli o fewn yr Uned Cymunedau, Cyfiawnder Cymdeithasol a Thystiolaeth Blynnyddoedd Cynnar, sy'n rhan o wasanaethau Gwybodaeth a Dadansodol (KAS) sydd wedi'u lleoli yn y gyfarwyddiaeth Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol. Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

Yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio yng nghanol Llywodraeth Cymru.

Bydd yr intern yn gweithio'n agos gydag ymchwilwyr Llywodraeth Cymru yn ogystal â swyddogion polisi yn y Gangen Cynhwysiant Ariannol a Digidol. Bydd yr interniaeth yn gofyn am weithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr a bydd yn rhoi cyfle i gymhwyso sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, datblygu sgiliau generig ymhellach (megis ysgrifennu adroddiadau neu wneud cyflwyniadau), ac i wella gwybodaeth am bolisi gyda'r bwriad o argymhell camau gweithredu yn y dyfodol sy'n anelu at leihau allgáu ariannol a digidol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys mentora, cysgodi, cymorth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd interniaid yn elwa ar y profiad o gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru:

- Gweithio mewn maes polisi proffil uchel sydd â'r potensial i ymgysylltu â Llywodraeth y DU yn ogystal â Llywodraeth draws-Gymru;
- Ennill gwell dealltwriaeth o'r byd y tu allan i'r byd academiaidd a chynyddu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.
- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru gynnig cipolwg ar brosiect PhD yr intern a all gyfrannu at lwyddiant eu traethawd hir, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio o fewn yr arena polisi sy'n gysylltiedig â'u maes ymchwil
- Sgiliau a gwybodaeth drosglwyddadwy
- Sgiliau rheoli amser
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau

Y Prosiect

Cefndir

Mae'r Gangen Cynhwysiant Ariannol a Digidol yn gweithio i wella eu sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynhwysiant ariannol ac allgáu yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae Cymru wedi'i chynnwys mewn rhai adroddiadau ledled y DU ar allgáu ariannol, ond mae maint y sampl yn isel. Yn ogystal â hyn, ni fydd cynhwysiant ariannol yn rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2026. Er mwyn llenwi'r bwlch tystiolaeth hwn, mae'r Gangen eisiau dadansoddi'r holl ymchwil sydd ar gael ar hyn o bryd i nodi tueddiadau Cymru o ran allgáu ariannol.

Bydd y wybodaeth hon yn helpu i nodi pa gynhyrchion y mae unigolion yn cael eu gwrthod amdanynt a'r goblygiadau i unigolion / dinasyddion. Mae angen cynhyrchion gwell ar bobl ar incwm isel na'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd, a chynhyrchion sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer eu hanghenion; ac mae gan bobl ar incwm isel yr un awydd am ddewis cynnyrch ag unrhyw grŵp arall. Mae galw am gynhyrchion ariannol fforddiadwy newydd, wedi'u cynllunio'n benodol i wasanaethu'r farchnad hon.

Bydd hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru i dargedu adnoddau cyfyngedig yn well e.e. y Gronfa Cymorth yn ôl Disgresiwn ac i nodi'r grwpiau hynny sydd wedi'u heithrio'n ariannol ac a allai fod angen cymorth ychwanegol

Beth fydd y cyfle yn cynnwys

Prif amcan rôl y prosiect hwn fydd arwain adolygiad o dystiolaeth i archwilio materion sy'n ymwneud ag allgáu ariannol yng Nghymru. Nod yr ymchwil fydd archwilio a gwella dealltwriaeth o'r ffactorau a all arwain at unigolion yn cael eu hallgáu'n ariannol, ac edrych ar ffactorau ataliol megis nodi arwyddion rhybuddio cyffredin ynghyd â'r ffactorau y gellid mynd i'r afael â nhw cyn i unigolyn gael ei eithrio'n ariannol.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd y prosiect yn cynnwys ystod o ymchwil desg gan gynnwys dadansoddi adroddiadau perthnasol penodol yn y DU a Chymru yn y parth cyhoeddus, ystyried ymchwil diweddar Llywodraeth Cymru ar undebau credyd, ac ymgorffori canfyddiadau set o gwestiynau i'w cynnwys yn Arolygon Omnibws Beaufort yn ystod 2025 a 2026.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei choladu mewn adroddiad a chyflwyniad. Yn ogystal â dadansoddiad craidd, bydd cyfle hefyd i gyfrannu at ddatblygu diffiniad a awgrymir ar gyfer allgáu ariannol yng Nghymru, nodi llwybrau ar gyfer ymchwil bellach a darparu tystiolaeth i lywio argymhellion polisi ar gyfer gweithredu i leihau allgáu ariannol yng Nghymru.

Rydym yn rhagweld y bydd yr ymchwil hon yn:

- Ymgysylltu â swyddogion polisi a chydweithwyr o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol (KAS) i ddeall bylchau tystiolaeth a datblygu cwestiynau ymchwil;
- Adolygu tystiolaeth bresennol o ymchwil Llywodraeth Cymru ac ymchwil ehangach, gan gynnwys gwerthusiadau o brosiectau/ymyriadau polisi, yn ogystal ag allbynnau ystadegol gyda chysylltiadau â'r pwnc o ddiddordeb. Y nod fydd archwilio'r mecanweithiau sy'n cyfrannu at wella canlyniadau o'r wybodaeth sydd ar gael, yn ogystal â datblygu darlun cydlynol o'r materion a'r grwpiau yr effeithir arnynt;
- Rhyngweithio posibl â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'u Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, sydd i'w chyhoeddi yn hydref 2025.

Canlyniadau prosiect disgwylledig:

- Cyhoeddi adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth sy'n adolygu a syntheseiddio tystiolaeth a thystiolaeth bresennol a gasglwyd drwy arolwg Omnibws Cymru;
- Data a dadansoddiad o ansawdd uchel i gynorthwyo dealltwriaeth o nodweddion allgáu ariannol yng Nghymru, p'un a yw hyn yn wahanol i allgáu ariannol mewn rhannau eraill o'r DU, argymhellion ar gamau ataliol ac adfer i osgoi a lleihau allgáu ariannol, rhwystrau cymdeithasol cysylltiedig sy'n aml yn cyd-fynd ac yn arwydd o allgáu ariannol a diffiniad o allgáu ariannol i Gymru;
- Cyflwyniad i gydweithwyr dadansoddol a swyddogion polisi Llywodraeth Cymru ar ganfyddiadau'r adolygiad tystiolaeth;
- Canfyddiadau i'w defnyddio fel tystiolaeth mewn argymhellion/sesiynau briffio ar gyfer Ysgrifenyddion y Cabinet yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau a gofynion interniaeth

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o hyd at dri mis. Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o hyd at dri mis. Disgwylir i fyfyrwyr llawn amser gamu'n ôl o'u PhD i ganolbwyntio ar yr interniaeth am ei gyfnod, yn unol â chanllawiau ESRC ([Canllaw Cyllido Ôl-raddedig ESRC tud. 27](#)). Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng adref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod ei interniaeth. Gall hyn newid yn ddibynnol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 3 mis amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy (dim llai na thri diwrnod yr wythnos waith), i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

Manyleb myfyriwr

Rhaid i'r myfyriwr ddangos:

- Y gallu i drafod gyda'r tîm polisi i ddeall eu hanghenion ac i gynnal ymchwil desg o ffactorau sy'n cyfrannu;
- Sgiliau adolygu llenyddiaeth cryf ac arfarnu tystiolaeth, gan gynnwys y gallu i syntheseiddio ystod eang o dystiolaeth;
- Y gallu i werthuso canfyddiadau/data ymchwil yn feirniadol a'u cymhwyso i gyd-destun polisi Cymreig;
- Y gallu i gynhyrchu dogfennau cryno, wedi'u hysgrifennu'n dda, sy'n cyflwyno tystiolaeth gymhleth mewn fformat hygyrch.

Dyddiad dechrau'r interniaeth

Ionawr (union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt fel arfer wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau Ysgol Graddedigion Gwyddorau (YGGCC). Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Katy Marrin Katy.Marrin001@gov.wales a Jo Coates Joanne.Coates@gov.wales.

Diogelwch

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys cwblhau ffurflen gais Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch ar gyfer y broses fetio.

Mae'r broses hon yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tri math gwreiddiol o ddogfen adnabod. Dylai un o'r rhain fod yn ddogfen â llun (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos y cyfeiriad presennol, a gallai'r trydydd math fod yn fil cyfleustodau, tystysgrif geni, P45 neu P60.

Gofynion cenedligrwydd

Mae cymhwysedd ar gyfer interniaeth ar y cynllun hwn yn dibynnu ar fodloni rheolau [Cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil](#). Gwiriwch eich bod yn gymwys cyn gwneud cais. Ni fydd y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu manteisio ar gyfle lleoliad.

Ymholiadau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r swydd neu'r broses ymgeisio at Nerys Owens (nerys.owens@gov.cymru).

Hysbysiad preifatrwydd

<https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru>